# Canllawiau ar Ddogfen Asesu Safonau Ymarfer Cymru Gyfan yr NMC (2022)

# Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN) a'r Cymhwyster Ymarfer Arbenigol Nyrsio Cymunedol (SPQ)

Rhagfyr 2023

# Cynnwys

Cyflwyniad ... 3
Manylion y Myfyriwr: Llenwch bob maes. ... 5
Y Cofnod o'r Goruchwylwyr Ymarfer, yr Aseswyr Ymarfer a'r Aseswyr Academaidd ... 5
Y Cyflwyniad i'r Amgylchedd Dysgu Ymarfer ... 5
Gwerthoedd Proffesiynol ar Waith ... 5
Datganiad y Myfyriwr, Cyfrinachedd a Chadw Manylion yn Ddienw ... 5
Pobl sy'n Defnyddio Gwasanaethau a Gofalwyr (Ffurflen Adborth ar Fyfyrwyr) ... 6
Yr Hunanasesiad - Cryfderau, Sialensiau, Cyfleoedd a Rhwystrau ... 6
Y Contract Dysgu ... 6
- Y Goruchwylwyr Ymarfer ... 6
- Aseswyr Ymarfer ... 7
- Yr Adolygiad Cychwynnol ... 7
- Yr Adolygiad o Gynnydd ... 7
- Y Contract Dysgu / Adolygiad Terfynol ... 8

Y Cofnod o Gyflawniad Parhaus ... 9
- Cyflawni'r Cymwyseddau ... 9

Y Cyfnod Cyfnerthu Dysgu ar Ddiwedd y Rhaglen Ymarfer ... 11
Y Cofnod o Oriau Ymarfer ... 11
Cymeradwyaeth yr Aseswr Ymarfer ar Ddiwedd y Rhaglen ... 12
Cymeradwyaeth yr Aseswr Academaidd ar Ddiwedd y Rhaglen ... 12
Y Cynllun Gweithredu ... 12

**At ddefnydd myfyrwyr ôl-gofrestredig, goruchwylwyr ymarfer (PS), aseswyr ymarfer (PA) ac aseswyr academaidd (AA) SCPHN ac SPQ**

## Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn i gynorthwyo nyrsys i ddefnyddio'r Ddogfen Asesu Ymarfer (PAD) ar gyfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN) a'r Cymwysterau Ymarfer Arbenigol Nyrsio Cymunedol (SPQ). Bwriedir iddynt gael eu defnyddio ochr yn ochr â'r PAD. Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio'r un penawdau â'r PAD.

Mae'r dogfennau hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wefan **Unwaith i Gymru AaGIC.**
Rhaglenni Nyrsio SCPHN ac SPQ i Ôl-raddedigion - AaGIC (gig.cymru)

- Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer SCPHN ac SPQ (ar gyfer pob maes penodol)
- Canllawiau Cymru gyfan ar gyfer Rhan 2 o Safonau'r NMC (2023) ar gyfer rolau a gofynion Goruchwylwyr Ymarfer, Aseswyr Ymarfer ac Aseswyr Academaidd wrth Oruchwylio ac Asesu Myfyrwyr (SSSA) (canllawiau ar gyfer PS/PA ac AA)
- Llawlyfr y Goruchwylwyr Ymarfer/Aseswyr Ymarfer (canllawiau pellach ar gyfer PS/PA)

Cyflwynwyd Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan mewn 4 maes penodol ar gyfer SCPHN a 6 maes penodol ar gyfer SPQ.

**PAD Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol.**

1. Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan (Safonau'r NMC 2022) SCPHN Ymwelwyr Iechyd
2. Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan (Safonau'r NMC 2022) SCPHN Nyrsys Ysgol
3. Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan (Safonau'r NMC 2022) SCPHN Nyrsys Iechyd Galwedigaethol
4. Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan (Safonau'r NMC 2022) SCPHN Nyrsys Iechyd Cyhoeddus

**PAD Cymwysterau Ymarfer Arbenigol Nyrsys Cymunedol**

1. Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan (Safonau'r NMC 2022) SPQ Nyrsys Ardal
2. Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan (Safonau'r NMC 2022) SPQ Nyrsys Ymarfer Cyffredinol
3. Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan (Safonau'r NMC 2022) SPQ Nyrsys Plant yn y Gymuned
4. Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan (Safonau'r NMC 2022) SPQ Nyrsys Iechyd Meddwl yn y Gymuned
5. Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan (Safonau'r NMC 2022) SPQ Nyrsys Anableddau Dysgu yn y Gymuned
6. Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan (Safonau'r NMC 2022) *SPQ Nyrsys Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

**Canllawiau cyffredinol yw'r rhain ac maent yn ymwneud â holl amrywiolion PAD yr SCPHN a'r SPQ ar gyfer meysydd penodol.**

Mae angen i oruchwylwyr ymarfer, aseswyr ymarfer ac aseswyr academaidd ddeall y dogfennau canlynol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cefnogi'n llwyddiannus.
Y fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth (nmc.org.uk)
Y safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr (nmc.org.uk)
Y safonau ar gyfer rhaglenni ôl-gofrestru (nmc.org.uk)
safonau_cymhwyster yr_nmc_ar_gyfer_scphn_nyrsys_iechyd_cymunedol arbenigol.pdf
safonau_cymhwyster_yr nmc ar gyfer spqs nyrsio cymunedol.pdf

Mae'r Canllawiau ar y PAD yn cyd-fynd â nifer o ddogfennau ategol er mwyn sicrhau bod y PAD yn cael ei chyflawni'n effeithiol gan hyrwyddo a chynorthwyo datblygiad myfyrwyr a chyfoethogi eu dysg.
Dylid neilltuo amser dysgu i'r myfyrwyr er mwyn caniatáu iddynt ddatblygu trwy agweddau ymarferol eu cwrs. Dylid clustnodi hyn gan ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol y maent wedi ei rhannu e.e. anghenion dysgu ychwanegol, nodweddion gwarchodedig, amgylchiadau teuluol, iechyd (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr), er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfle priodol i ddatblygu. Mae rhagor o fanylion ym mholisïau'r Sefydliad Addysg Gymeradwy (AEI) a'r Bwrdd Iechyd.
Os yw myfyrwyr yn cael anhawster sicrhau amser dysgu neilltuedig, dylent drafod hynny gyda'u PA/AA a'u dathlithydd cyswllt o'r AEI.

D.S. Dylai'r PAD fod ar gael i'r PS/PA/AA ei thrafod a'i llenwi pan fo'r myfyriwr yn eu hamgylchedd dysgu ymarfer.

Ar ddiwedd y rhaglen, mae hi'n bwysig bod y myfyriwr yn parhau i ddysgu trwy diwtoriaeth, a fydd yn rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu i fod yn gymwys i fod yn hyfedr/arbenigydd.

## Manylion y Myfyriwr: Llenwch bob maes.

## Y Cofnod o'r Goruchwylwyr Ymarfer, yr Aseswyr Ymarfer a'r Aseswyr Academaidd

I'w lenwi ar ddechrau'r rhaglen, gan ychwanegu manylion unigolion perthnasol eraill sy'n cyfrannu at y PAD fel y bo angen wrth fynd ymlaen. Gallai hyn gynnwys Hwyluswyr Addysg Ymarfer (PEF), Nyrsys Cyswllt Addysg (ELN), Arweinwyr Tîm, Rheolwyr Ymarfer, Arweinwyr Rhaglenni a phersonél perthnasol arall o'r Bwrdd Iechyd / AEI. Bydd disgwyl i chi weithio gyda nifer o oruchwylwyr ymarfer yn ystod y rhaglen.

## Y Cyflwyniad i'r Amgylchedd Dysgu Ymarfer

Dylid llenwi'r ffurflen hon, gan gynnwys rhestr gyfeirio'r cyflwyniad yn ei chyfanrwydd cyn pen wythnos ar ôl dechrau mewn Amgylchedd Dysgu Ymarfer (PLE) newydd. Rhaid cyfeirio unrhyw faterion sy'n codi at yr Aseswr Ymarfer (PA).
Llenwch y blwch cyntaf yma yn ôl y gofyn. Y person sy'n goruchwylio profiad ymarfer y myfyriwr fydd y Goruchwylydd Ymarfer (PS) fel rheol. Caiff enw'r darlithydd cyswllt o'r Brifysgol ei glustnodi trwy Archwiliad Addysgol ar gyfer y PLE, a dylid ei nodi yma.

### Y Rhestr Gyfeirio

Mae angen cwblhau'r rhestr cyn pen yr wythnos gyntaf yn y PLE. Rhaid cael trafodaeth fanwl cyn llenwi'r adran hon. Bydd y Myfyriwr, y Goruchwylydd Ymarfer a'r Aseswr Ymarfer yn rhan o'r drafodaeth. Mae ei chwblhau'n gywir yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan y myfyriwr yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i'w hamddiffyn eu hunain ac eraill, gan gynnwys y cyhoedd, yn y PLE. Dylai'r myfyriwr a'r PS/PA neu'r AA fel y bo'n briodol lofnodi a dyddio pob adran yn unigol.
Dylid trafod holl bolisïau yr AEI a'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod y myfyriwr yn gwybod sut i'w cyrchu a'u deall.

## Gwerthoedd Proffesiynol ar Waith

Dyma gyfle hanfodol i drafod y safonau uchel o ran ymddygiad proffesiynol y mae gofyn i fyfyrwyr ôl-gofrestredig, sydd wedi cofrestru gyda'r NMC, eu dangos. Dylai fod gan y myfyriwr wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r Cod (NMC, 2018). Dylid trafod gwerthoedd ac ymddygiad y Bwrdd Iechyd o dan sylw yn y fan yma hefyd.

## Datganiad y Myfyriwr, Cyfrinachedd a Chadw Manylion yn Ddienw

Y PS/PA a'r Myfyriwr i drafod hyn ar ddechrau'r PLE gan sicrhau bod y myfyriwr yn deall beth a ddisgwylir ganddynt. Ystyriwch bolisïau'r Bwrdd Iechyd / AEI / Cyflogwr ar Wybodaeth Adnabyddadwy am Gleifion a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR, 2018). Y myfyriwr i lofnodi pan fo'n glir y caiff yr holl wybodaeth a gofnodir yn y PAD ei chadw'n ddienw.

## Pobl sy'n Defnyddio Gwasanaethau a Gofalwyr (Ffurflen Adborth ar Fyfyrwyr)

heiw.nhs.wales/files/student-feedback-form-english-final-oct-25-2023pdf/
Mae'r ffurflenni hyn yn Atodiad 2 o bob PAD

- dylai fod gan y myfyriwr o leiaf tair ffurflen gyflawn yn eu PAD erbyn diwedd y rhaglen
- dylai amrywiaeth o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau lenwi'r ffurflenni. Gallai hyn gynnwys cleifion/cleientiaid/gofalwyr fel y bo'n briodol i'r rhaglen.
- mae yna ddau fath o ffurflen, mae'r naill yn defnyddio ffotograffau i ddangos y gweithgaredd sy'n cael ei adolygu, a'r llall yn defnyddio cymeriadau cartŵn. Dylai'r myfyriwr ddewis y ffurflen orau i gyd-fynd ag anghenion yr adolygwr.
- er mwyn osgoi tuedd, bydd y PS neu'r PA yn dethol ac yn holi pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau neu ofalwyr er mwyn casglu adborth.
- dylai'r PA drafod unrhyw adborth a geir y mae angen gweithredu arno neu ei rannu'n ehangach gyda'r Myfyriwr/PS/PLE/AA, a dogfennu'r ateb yn y PAD.

## Yr Hunanasesiad - Cryfderau, Sialensiau, Cyfleoedd a Rhwystrau

Dylid cyflawni'r hunanasesiad yma unwaith ar ddechrau'r rhaglen ac nid oes angen ei gyflawni eto oni bai bod angen cynllun gweithredu. Dylid dod â hi i'r Adolygiad Cychwynnol o'r Contract Dysgu yn Semester/Tymor 1, gyda'r PS/PA.
Dyma gyfle i drafod a chlustnodi beth y mae'r myfyriwr yn teimlo yw eu Cryfderau, Sialensiau, Cyfleoedd a Rhwystrau ar ddechrau'r lleoliad dysgu ymarfer. Mae gan fyfyrwyr unigol amrywiaeth o brofiadau personol a phroffesiynol. Efallai y bydd arnynt angen anogaeth a chefnogaeth sensitif os ydynt wedi clustnodi sialensiau neu rwystrau.
Mae Cod yr NMC (2018) yn datgan y dylai pob nyrs fod yn hunanymwybodol a chydnabod sut y gall eu gwerthoedd, egwyddorion a rhagdybiaethau eu hunain effeithio ar eu hymarfer.

## Y Contract Dysgu

Bydd yna dri phwynt adolygu ym mhob semester/tymor i'r myfyriwr/PS/PA a'r AA gyfarfod. Yr Adolygiad Cychwynnol, yr Adolygiad o Gynnydd a'r Adolygiad Terfynol yw'r rhain.
Mae yna dri chopi o'r ffurflenni hyn ym mhrif gorff y PAD. Mae yna gopïau ychwanegol yn yr Atodiad os oes angen.
Ar ddechrau semester/tymor olaf y myfyriwr, mae hi'n bwysig sicrhau bod cynllun yn ar waith er mwyn caniatáu i'r myfyriwr gyflawni ei holl gymwyseddau erbyn diwedd y rhaglen.

### Y Goruchwylwyr Ymarfer

Sicrhewch fod goruchwylwyr ymarfer: wedi cyflawni cyfnod o hyfforddiant hyfforddi -
Egwyddorion hyfforddiant hyfforddi  Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (nmc.org.uk)
<https://www.nmc.org.uk/standards/guidance/preceptorship/> yn unol ag egwyddorion yr NMC ar gyfer hyfforddi fel gweithwyr proffesiynol cymwys yr SCPHN a'r SPQ nyrsio cymunedol,

neu eu bod yn gallu dangos dysg flaenorol a phrofiad perthnasol fel goruchwylydd ymarfer sy'n caniatáu iddynt hwyluso cyfleoedd dysgu effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer myfyrwyr SCPHN ôl-gofrestredig neu'r SPQ nyrsio cymunedol.

### Aseswyr Ymarfer

Sicrhewch fod aseswyr ymarfer ac academaidd: wedi cyflawni cyfnod o hyfforddiant hyfforddi yn unol ag egwyddorion yr NMC ar gyfer darparu hyfforddiant fel SCPHN neu nyrsys cymunedol ag SPQ, neu eu bod yn gallu dangos dysg flaenorol a phrofiad perthnasol fel aseswr ymarfer sy'n caniatáu iddynt chwarae rhan mewn prosesau asesu teg, dibynadwy a dilys yng nghyd-destun SCPHN a/neu'r SPQ nyrsio cymunedol. Sicrhewch fod y myfyriwr yn cael ei aseinio i aseswr ymarfer sy'n SCPHN cofrestredig profiadol neu'n nyrs SPQ cymunedol ym maes y rhaglen y mae'r myfyriwr yn ei dilyn.

### Yr Adolygiad Cychwynnol

Dylid cyflawni'r adolygiad hwn cyn pen y pythefnos cyntaf yn y PLE. Dylai'r Hunanasesiad fod wedi cael ei gwblhau a dylai fod ar gael ar gyfer i'w drafod a'i adolygu. Dylid llenwi pob adran gan gynnwys lleoliad cynnal yr adolygiad. Y Myfyriwr a'r PS/PA/AA i'w lofnodi a'i ddyddio.

Yn dilyn trafodaeth gyda'r PS/PA, rhaid i'r myfyriwr glustnodi anghenion dysgu a datblygu penodol ar gyfer y cyfnod hwn o ddysgu ar leoliad ymarfer. Dylid cyflwyno hyn ar ffurf pwyntiau bwled. Dylid amlinellu'r cynllun dysgu, eto mewn pwyntiau bwled, ar y cyd â'r PS/PA. Mae hwn yn gyfle pwysig i sicrhau bod y myfyriwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi, ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt.

Cyn yr adolygiad o gynnydd, dylai'r myfyriwr gwblhau'r adran 'sylwadau'r myfyriwr yn dilyn yr adolygiad cychwynnol'. Dylid dod â'r sylwadau hyn i'r 'adolygiad o gynnydd'.

### Yr Adolygiad o Gynnydd

Dylid trafod sylwadau adolygu cychwynnol y myfyriwr yn fanwl gyda'r PS/PA yn yr adolygiad o gynnydd. Os oes angen cynnwys ychwanegol ar yr hunan-fyfyrdod mewn perthynas â bodloni'r cymwyseddau, dylid trafod hyn a dylai'r PS/PA gyflwyno sylwadau arno.

Bydd y PS/PA yn cyflwyno sylwadau ar ymddygiad a gallu'r myfyriwr hefyd. Bydd y broses yma'n helpu i gyfoethogi'r dysgu trwy gydol yr asesiad. Dylai'r myfyriwr, y PS a'r PA lofnodi a dyddio'r hunan-fyfyrdod yn y cyfarfod yma.

Dylai'r adolygiad o gynnydd ystyried unrhyw gymwyseddau a glustnodwyd sy'n weddill/y mae'r myfyriwr yn gweithio tuag atynt, a dylid anelu at gyflawni'r rhain cyn yr adolygiad terfynol. Dylai fod yna drafodaeth ar y rhain, a dylai'r myfyriwr gael cymorth i ddatblygu a chofnodi cynllun am sut y caiff unrhyw gymwyseddau sy'n weddill eu cyflawni.

Bydd y PS a'r PA yn cofnodi asesiad gwrthrychol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth am ymddygiad, lefel arbenigedd a chyflawniad y myfyriwr.

Gallai'r ffynonellau o dystiolaeth i ategu asesiad y myfyriwr gynnwys:
(Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr).

- Arsylwi uniongyrchol ar y myfyriwr.
- Cysylltiadau â goruchwylwyr ymarfer a chydweithwyr eraill yn y lleoliad ymarfer
- Dogfennaeth y myfyriwr, fel y ddogfen asesu ymarfer, neu gofnod parhaus o gyflawniad, neu gofnodion cleifion/cleientiaid
- Cysylltiadau ag unrhyw aseswyr ymarfer eraill
- Cysylltiadau â'r aseswr academaidd
- Hunan-fyfyrdod y myfyriwr

Am ragor o fanylion, cliciwch ar y linc:
[Asesiad o ddysg ymarferol yn seiliedig ar dystiolaeth - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (nmc.org.uk)]
Rhaid i chi gysylltu â'r AA a llunio cynllun gweithredu os na chafwyd digon o ymgysylltiad neu dystiolaeth o gyflawni.
Mae angen i'r AA lenwi'r blwch sylwadau a chytuno ar ddyddiad ar gyfer yr adolygiad diwedd semester/tymor. Wedyn dylai'r myfyriwr lenwi'r adran 'sylwadau'r myfyriwr yn sgil yr adolygiad o gynnydd', gan ddefnyddio hunan-fyfyrdod, gan glustnodi'r cynnydd a wnaed a'r meysydd ar gyfer gwella. Dylid llenwi'r adran hon a dod â hi i'r 'adolygiad terfynol' lle dylai'r myfyriwr, y PS a'r PA ei llofnodi a'i dyddio.

## Y Contract Dysgu / Adolygiad Terfynol

Dylai'r myfyriwr ddod â'u 'sylwadau'r myfyriwr yn dilyn yr adolygiad o gynnydd' cyflawn i'r cyfarfod adolygu diwedd semester/tymor. Fel o'r blaen, dylid trafod hyn yn fanwl gyda'r myfyriwr, a dylai'r myfyriwr, y PS a'r PA ei lofnodi. Os oes yna gymwyseddau sy'n weddill, rhaid amlygu'r rhain a'u trafod gyda'r myfyriwr, a llunio cynllun ysgrifenedig cymeradwy er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni cyn diwedd y rhaglen.

## Y Cofnod o Gyflawniad Parhaus

*Y Safonau Cymhwysedd ar gyfer Cymwysterau Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol a'r Cymwysterau Ymarfer Arbenigol.*

Mae hi'n hanfodol eich bod chi'n gyfarwydd â'r dogfennau sy'n gysylltiedig â'r Canllawiau hyn a'ch bod wedi cael hyfforddiant PS/PA cyn ceisio llenwi'r adran hon a llofnodi i bennu yw'r myfyriwr wedi cyflawni'r cymhwysedd ai peidio.

**SCPHN (Cylchoedd Dylanwad)**
Mae yna 6 Chylch Dylanwad o fewn y Safonau Cymhwysedd ar gyfer SCPHN. O fewn y cylchoedd dylanwad, mae'r deilliannau'n ymrannu'n gymwyseddau. Mae yna gymwyseddau craidd y mae angen i bob maes dylanwad eu cyflawni. Yn ogystal, mae angen i fyfyrwyr SCPHN Ymwelwyr Iechyd, Nyrsys Ysgol a Nyrsys Iechyd Galwedigaethol gyflawni cymwyseddau ar gyfer eu meysydd penodol. Mae'r cymwyseddau hyn yn pennu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad y mae nyrsys a bydwragedd cofrestredig yn mynd ymlaen i'w cyflawni. Bydd hyn yn eu galluogi i gynorthwyo a gofalu am bobl, cymunedau a phoblogaethau ar draws cwmpas eu hoes mewn rolau nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol.

**SPQ (Platfformau)**
Mae yna 7 Platfform o fewn y Safonau Cymhwysedd ar gyfer SPQ. O fewn y Platfformau hyn, mae'r deilliannau'n ymrannu'n gymwyseddau. Y cymwyseddau craidd y mae angen i fyfyrwyr o bob maes ymarfer eu cyflawni yw'r rhain. Mae angen i bob cymhwysedd ymwneud â maes ymarfer penodol. Mae'r cymwyseddau hyn yn adlewyrchu'r wybodaeth, y sgiliau a'r nodweddion arbenigol sydd eu hangen ar nyrsys sy'n gweithio yn y gymuned mewn unrhyw rolau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau'n fwy awtonomaidd.

### Cyflawni'r Cymwyseddau

Caiff cymhwysedd clinigol myfyrwyr ei asesu gan ddefnyddio fframwaith Benner (1984). Yn gyson â meini prawf Benner, rhaid i fyfyrwyr sy'n cyflawni'r rhaglenni SCPHN ac SPQ gyflawni o leiaf lefel CYMWYS o ymarfer yn yr holl Gymwyseddau o fewn yr holl Gylchoedd neu Blatfformau. Ar y dyddiad cyflwyno ar ddiwedd y rhaglen, caiff unrhyw lefel o ymarfer y mae'r Aseswr Ymarfer yn ei chofnodi islaw'r lefel CYMWYS ei hystyried fel atgyfeiriad, a bydd angen ei hailgyflwyno.

Mae esboniad o'r ffurflen Cofnod Parhaus o Gyflawniad isod.

**GWEITHIO TUAG AT**
Os yw'r myfyriwr yn gweithio tuag at gyflawni'r cymhwysedd yma, byddant yn bodloni safon Nofis neu Ddechreuwr Uwch Benner.

**HEB EI GYFLAWNI**
Os yw'r myfyriwr yn dal i fod ar lefel Nofis neu Ddechreuwr Uwch ar ddiwedd y rhaglen, yna ni fyddant wedi cyflawni'r lefel cymhwysedd. Mae angen i'r PA fod wedi adolygu'r holl wybodaeth wrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gafwyd gan y myfyriwr, y PS a'r AA cyn llofnodi a dyddio.

| Mapio Theori AEI | **Statws** | **Gweithio tuag at** | | | | **Wedi ei gyflawni** | | | | | | **Heb ei gyflawni** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Fframwaith/Meini Prawf Benner** | **1 Nofis** | | **2 Dechreuwr Uwch** | | **3 Cymwys** | | **4 Hyfedr** | | **5 Arbenigydd** | | **1 Nofis** | | **2 Dechreu[wr] Uwch** | |
| | **Adeg cofrestru, bydd yr SCPHN yn gallu bodloni'r deilliannau CRAIDD canlynol:** | **Llythrennau'r PS/PA** | **Dyddiad** | **Llythrennau'r PS/PA** | **Dyddiad** | **Llythrennau'r PA** | **Dyddiad** | **Llythrennau'r PA** | **Dyddiad** | **Llythrennau'r PA** | **Dyddiad** | **Llythrennau'r PA** | **Dyddiad** | | |
| | Rhif y Plattfform neu'r Cylch | | | | | | | | | | | | | | |

**MAPIO THEORI GAN YR AEI**
Bydd yr AEI yn mapio theori'r cwrs i'r cymwyseddau hyn.

**CYFLAWNWYD**
Os yw'r myfyriwr naill ai'n Gymwys, yn Hyfedr neu'r Arbenigydd yn y cymhwysedd yma trwy asesiad gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, rhaid i'r PA lofnodi a dyddio'r blwch perthnasol islaw. Mae'r cymhwysedd yma wedi cael ei gyflawni gan y myfyriwr.

## Myfyrio

Ar ddiwedd pob Cylch/Platfform, mae yna gyfle i'r myfyriwr ysgrifennu myfyrdod i ategu cyflawniad y cylch neu'r platfform o dan sylw.

Nid oes angen i'r myfyriwr ysgrifennu myfyrdod ar bob un o'r Cylchoedd neu'r Platfformau:

- disgwylir i'r myfyriwr gwblhau 4 myfyrdod erbyn diwedd y rhaglen
- dylai'r myfyriwr drafod pa gylchoedd neu blatfformau y maent am fyfyrio arnynt gyda'u PS/PA
- efallai y byddai'r myfyriwr am gyfeirio at gylchoedd/platfformau/cymwyseddau eraill o fewn y myfyrdod
- gall y myfyriwr ddefnyddio model myfyrio o'u dewis
- dylai pob myfyrdod fod rhwng 500 a 1000 o eiriau

Bydd y PS, y PA a'r AA yn darllen ac yn trafod cynnwys y myfyrdod, yn nodi sylwadau ac yn ei lofnodi.

## Y Cyfnod Cyfnerthu Dysgu ar Ddiwedd y Rhaglen Ymarfer

Yr AEI fydd yn pennu faint o amser sydd gan y myfyriwr i gyfnerthu eu dysg ar ddiwedd y rhaglen. Gallai hyn ddigwydd mewn amgylchedd dysgu ymarfer gwahanol. Mae hi'n hanfodol cyflawni unrhyw gymwyseddau sy'n weddill yn ystod y cyfnod hwn.
Yn ystod y cyfnod hwn, dylai fod yna 3 chyfle (ar y dechrau, yn y canol ac ar y diwedd) i'r myfyriwr, y PS, y PA a'r AA gyfarfod i gynllunio gweithgareddau penodol, myfyrio ac asesu'r ddysg.

## Y Cofnod o Oriau Ymarfer

**Cofnodwch nifer yr oriau ymarfer clinigol sydd eu hangen i gwblhau'r rhaglen yn ôl yr AEI.**

**Dylai'r myfyriwr gadw cofnod o'u horiau ymarfer trwy gydol y rhaglen ynghyd â chyfanswm wythnosol treigl. Bydd y PS neu'r PA yn llofnodi'r oriau ymarfer ar ddiwedd pob wythnos. Rhaid cofnodi unrhyw oriau sy'n weddill yn glir, a rhaid iddi fod yn glir hefyd pryd y cânt eu cyflawni er mwyn dal i fyny cyn diwedd y cwrs.**

Dylid llenwi a llofnodi'r daflen grynhoi Oriau Ymarfer ar ddiwedd pob semester/tymor.
Dylid llenwi'r daflen crynhoi Oriau Ymarfer trwy gydol y rhaglen gyfan a'i llofnodi ar y diwedd.

## Cymeradwyaeth yr Aseswr Ymarfer ar Ddiwedd y Rhaglen

Ar ddiwedd y rhaglen, dylai'r PA glustnodi a yw'r myfyriwr wedi cyflawni'r lefel o gymhwysedd ymarfer sy'n ofynnol, trafod hynny gyda'r AA a chwblhau'r nifer gofynnol o oriau ymarfer. Mae angen i'r PA glustnodi ai llwyddo, atgyfeirio neu fethu yw canlyniad y myfyriwr yn elfen ymarferol y rhaglen. Rhaid llofnodi a dyddio'r rhan yma.

## Cymeradwyaeth yr Aseswr Academaidd ar Ddiwedd y Rhaglen

Ar ddiwedd y rhaglen, dylai'r AA gofnodi eu bod wedi gweld ffurflen gymeradwyo diwedd rhaglen y PA, a chadarnhau a yw'r myfyriwr wedi bodloni gofynion y PAD ai peidio.

## Y Cynllun Gweithredu

Dyluniwyd y pro fforma yma i ymateb i sefyllfaoedd ar unrhyw bwynt yn y rhaglen lle nad yw'r myfyriwr yn bodloni'r lefelau gofynnol o ran cymhwysedd neu gysylltiad â'r ymarfer. Mae angen cyfathrebu clir rhwng y myfyriwr, y PS, y PA a'r AA a rhoi'r cyfle i'r myfyriwr unioni unrhyw faterion sy'n codi. Os oes angen cynllun gweithredu, gallai fod yn briodol cysylltu â'r Hwylusydd Addysg Ymarferol neu'r Nyrs Cyswllt Addysg.

Rhaid gwahaniaethu rhwng unrhyw faterion sy'n gysylltiedig ag iechyd sy'n effeithio ar ffitrwydd myfyriwr i ymarfer ac anghenion dysgu parhaus y myfyriwr sy'n gofyn am ddefnyddio pro fforma Cynllun Gweithredu Cymru Gyfan. Os oes yna broblemau o ran ffitrwydd i ymarfer, yn ogystal â'r cynllun gweithredu, dylid cyfeirio'r mater ymlaen gan ddilyn polisi'r Bwrdd Iechyd a'r AEI.

Dylech fod yn ymwybodol o effeithiau emosiynol gofyn am gymorth ychwanegol o dan Gynllun Gweithredu Cymru Gyfan ar y myfyriwr, ac ymgorffori cymorth i'r cynllun gweithredu mewn ffordd briodol.

Dylid nodi'r rheswm dros roi'r cynllun gweithredu ar waith yn glir, a dylent fod yn gysylltiedig â'r cymwyseddau neu ddiffyg cysylltiad. Dylid cytuno ar y ffordd ymlaen gyda'r myfyriwr, gan ddefnyddio amcanion Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol (CAMPUS), a chofnodi'r rhain ar y ffurflen. Cyflawnir adolygiad o gynnydd gyda'r myfyriwr, y PS/PA a'r AA. Rhaid dogfennu a yw'r myfyriwr yn parhau i weithio tuag at yr amcanion a glustnodwyd neu wedi eu cyflawni.

Mae yna 2 restr uchod y gallwch gyfeirio atynt i hwyluso'r broses yma, a gallai fod yn ddefnyddiol edrych eto ar ganllawiau'r NMC ac AaGIC mewn perthynas â dirprwyo ac atebolrwydd.
dirprwyo-ac-atebolrwydd-gwybodaeth-ategol-i-god-yr-nmc.pdf
Canllawiau Dirprwyo Cymru Gyfan - AaGIC (gig.cymru)

| ***ÔL-TROED ASESU*** ***Ystyriaethau mewn sefyllfaoedd asesu lle nad yw myfyriwr yn cyflawni'r lefelau cymhwysedd gofynnol wrth ymarfer*** | |
|---|---|
| A yw'r asesiad o gymhwysedd y myfyriwr yn cynnwys ystyriaeth o'r meini prawf datblygu ar gyfer y rhaglen? | **Dehongli cymhwysedd** |
| A roddwyd ystyriaeth i allu'r myfyriwr i fyfyrio ar ei berfformiad ei hun? | |
| A yw'r penderfyniadau asesu'n cael eu dogfennau mewn ffordd sy'n cofnodi manylion *penodol* pryderon y goruchwylydd a'r aseswr? | |
| A yw effeithiau goruchwylio myfyriwr nad yw'n bodloni'n lefelau cymhwysedd gofynnol, yn emosiynol ac o ran adnoddau sefydliadol, yn cael eu cydnabod? | **Meithrin gobaith** |
| A yw ymdeimlad y myfyriwr o fregustra a pherthyn yn cael sylw haeddiannol? | |
| Pa fesurau sy'n bodoli i gynorthwyo goruchwylwyr ac aseswyr â'r syniad hwyrach na fydd y myfyriwr yn cyflawni Safonau gofynnol yr NMC? | |
| A gytunwyd ar y rheolau sylfaenol ar gyfer y contract dysgu rhwng y myfyriwr a'r goruchwylwyr/aseswyr? | **Rheoli cynnydd asesu** |
| A yw fformat Cynllun Gweithredu Cymru Gyfan yn cael ei ddefnyddio? | |
| A yw hanes lleoliad blaenorol y myfyriwr wedi cael ystyriaeth deg yng nghyd-destun yr amgylchiadau asesu cyfredol? | |
| Pa sicrwydd sydd yna fod y myfyriwr wedi deall natur y pryderon sy'n cael eu bwydo nôl gan y goruchwylwyr a'r aseswyr? | |
| A oes yna gytundeb rhwng yr holl bersonél allweddol cysylltiedig am y sut y gwnaed y penderfyniadau asesu? | |

**Rhestr gyfeirio o'r prosesau allweddol wrth adolygu neu adrodd nôl ar ôl y sefyllfa asesu**

| | Rhestr gyfeirio o'r prosesau allweddol | Dangosyddion allweddol yr adolygiad |
|---|---|---|
| **1** | A ystyriwyd *ffitrwydd* y myfyriwr i ymarfer? | Roedd y pryder yn sicr ynghylch datblygiad dysgu parhaus y myfyriwr yn hytrach na phryder uniongyrchol am eu hiechyd neu eu hymddygiad |
| **2** | A oedd y goruchwylwyr a'r aseswyr yn glir ynghylch natur y pryderon? A drafodwyd y rhain gyda'r myfyriwr? | Roedd y pryder ynghylch cymhwysedd y myfyriwr yn hytrach nac o ganlyniad i'r amgylchedd dysgu neu'r berthynas â'r goruchwylydd/asesu.<br>-Rhoddwyd addasiadau rhesymol ar waith mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol y myfyriwr. |
| **3** | A lenwyd y ddogfennaeth deilliannau dysgu arferol (yn ogystal â chynllun gweithredu) mewn ffordd amserol? | Dogfennwyd y datganiad cychwynnol o fwriad yn rhan o gontract dysgu'r myfyriwr.<br>-Cyflawnwyd cyfweliad canol lleoliad.<br>-Defnyddiwyd meini prawf perthnasol ar gyfer cyfnod y myfyriwr ar y rhaglen. |
| **4** | A gafodd effaith darparu adborth adeiladol ar gyfer y myfyriwr ei hystyried yn ofalus? | -Clustnodwyd y personél allweddol o'r Bwrdd Iechyd a'r AEI sy'n gysylltiedig â'r broses asesu.<br>-Ystyriwyd y lleoliad ar gyfer cynnal trafodaethau rhannu adborth â'r myfyriwr.<br>-Roedd y goruchwylwyr a'r personél asesu allweddol yn deall ac yn derbyn eu hatebolrwydd a'u hymrwymiad i'r broses o wneud penderfyniadau. |
| **5** | A gafodd goblygiadau llunio cynllun gweithredu eu hystyried? | -Roedd templed y cynllun gweithredu'n cynnwys amcanion mesuradwy.<br>-Darparwyd esiamplau manwl o'r pryderon ac roeddent yn gysylltiedig â gwaith i gyflawni deilliannau dysgu penodol o ran ymarfer.<br>-Roedd yr adborth yn adeiladu ar gryfderau a chyflawniadau'r myfyriwr.<br>-Anogwyd y myfyriwr i hunanasesu yn erbyn meini prawf y rhaglen o ran datblygiad.<br>-Trefnwyd a chytunwyd ar ddyddiadau cyflawni a chyfarfodydd adolygu'r cynllun gweithredu.<br>Cafodd sefyllfaoedd lle gwelwyd diffyg cynnydd parhaus eu cyfleu i bersonél perthnasol y Bwrdd Iechyd a'r Brifysgol. |